# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

**RHAN 4**

DIWALLU ANGHENION

*Penderfynu beth i'w wneud ar ôl asesiad o anghenion*

## 33 Y weithdrefn ar gyfer rheoliadau o dan adran 32

(1) Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 32(3) neu (4), rhaid i Weinidogion Cymru gymryd y camau a ganlyn.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y rheoliadau drafft arfaethedig â'r canlynol—

(a) unrhyw bersonau y mae'n ymddangos iddynt fod y rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt,

(b) unrhyw sefydliadau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau personau y mae'r rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt, ac

(c) unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) rhoi cyfnod o 12 wythnos o leiaf i'r personau hynny i gyflwyno sylwadau ar y rheoliadau drafft arfaethedig,

(b) ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir o fewn y cyfnod hwnnw, ac

(c) cyhoeddi crynodeb o'r sylwadau hynny.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o'r rheoliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(5) O ran y rheoliadau drafft a osodir o dan is-adran (4)—

**Statws** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/04/2016.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 33 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(a) rhaid iddynt fynd gyda datganiad gan Weinidogion Cymru yn rhoi manylion unrhyw wahaniaethau rhwng y rheoliadau drafft yr ymgynghorwyd arnynt o dan is-adran (2) a'r rheoliadau drafft a osodir o dan is-adran (4), a

(b) ni chaniateir iddynt gael eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 196(6) tan ar ôl i'r cyfnod o 60 niwrnod, yn dechrau ar y diwrnod y gosodir y rheoliadau drafft, ddod i ben.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 33 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**

**I2** A. 33 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag ergl. 4, Atod. 1, Atod. 2)

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/04/2016.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 33 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.